

# Crynodeb Gweithredol

1. Ym mis Chwefror 2019, cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder Adolygiad o'r Prawf Modd ar gyfer Cymorth Cyfreithiol fel rhan o Gynllun Gweithredu Cefnogaeth Gyfreithiol. At ddibenion ymgynghori, mae'r papur hwn yn nodi ein newidiadau arfaethedig i'r prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol.
2. Mae cymorth cyfreithiol yn talu am gyngor, cymorth a chynrychiolaeth gyfreithiol i unigolion sydd angen y gwasanaethau hyn. Mae'r rhan fwyaf o gymorth cyfreithiol troseddol a sifil yn dibynnu ar brawf modd, i sicrhau bod adnoddau cyhoeddus yn cael eu cyfeirio at y rheini sydd fwyaf mewn angen.
3. Mae'r broses o gynnal prawf modd yn elfen hanfodol wrth benderfynu a yw rhywun yn gymwys am gymorth cyfreithiol. Ei nod yw sicrhau bod y rheini sydd â'r angen mwyaf yn cael cymorth i dalu eu costau cyfreithiol, a bod y rheini sy'n gallu fforddio cyfrannu at eu costau cyfreithiol yn gwneud hynny. Nodwyd yr egwyddorion hyn yn ymgynghoriad 2010 o'r Cynigion i Adfywio Cymorth Cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr, ac maent yn sail i'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn.
4. Bu'r adolygiad hwn yn un agored a chydweithredol. Cynhaliodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder nifer fawr o gyfarfodydd ymgynghorol gydag amrywiaeth o bartïon â diddordeb, gan gynnwys ymarferwyr cyfreithiol o bob rhan o'r sector cymorth cyfreithiol, mudiadau'r trydydd sector, y farnwriaeth ac arbenigwyr academiaidd. Mae'r cydweithio adeiladol hwn wedi ein helpu i lunio'r polisïau a welir yn y ddogfen hon.
5. Rydym yn argymhell ystod eang o newidiadau i'r prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol, gyda'r nod o sicrhau mynediad at gyfiawnder. Mewn rhai achosion, rydym yn argymhell dod â'n hagwedd at gymorth cyfreithiol sifil a throseddol yn agosach at ei gilydd. Yn benodol, rydym yn argymhell:
  - defnyddio costau byw fel prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil, fel rydym eisoes yn ei wneud ar gyfer prawf modd Llys y Goron a'r Llys ynadon
  - defnyddio dull diwygiedig Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd i addasu incwm gros ac incwm gwario ar gyfer gwahanol fathau o aelwydydd
  - diystyru treth gyngor o'r prawf modd cymorth cyfreithiol sifil (fel prawf modd Llys y Goron a'r Llys ynadon) ac i ddiddymu'r cap o £545 y mis ar gostau tai

- uwchraddio'r lwfans gwaith presennol ar gyfer y prawf modd cymorth cyfreithiol sifil a gweithredu lwfans sy'n debyg i brawf modd Llys y Goron a'r llys ynadon.
- tynnu dyled blaenoriaeth ac ad-daliadau dyled myfyrwyr a chyfraniadau pensiwn o hyd at 5% o enillion o'r asesiad incwm gwario

6. Ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil, rydym yn argymhell:

- cynnydd sylweddol i'r trothwy incwm, drwy ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar gostau byw
- cynyddu'r trothwyon cyfalaf gwario a'r lwfans ecwiti
- diystyru taliadau digolledu, ex-gratia ac iawndal am niwed personol, a thaliadau budd-daliadau a thaliadau cynhaliaeth plant sydd wedi'u hôl-ddyddio, o'r asesiad cyfalaf
- diystyru eiddo sy'n destun anghydfod yn yr achos y mae'r unigolyn yn gwneud cais am gymorth cyfreithiol amdano
- diystyru cyfalaf anhygyrch, tra'n codi tâl ar yr ased dan sylw, gyda'r bwriad o adfer y costau cymorth cyfreithiol
- eithrio'r rhai sy'n derbyn mathau penodol o fudd-daliadau lles nad ydynt yn berchnogion tai rhag yr asesiad cyfalaf
- ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol gydag enillion o fewn cartref uwchlaw £500 y mis i gael asesiad incwm yn hytrach na chael eu pasbortio fel sy'n digwydd ar hyn o bryd
- cap amser o 24 mis fel yr amser hiraf y mae cyfraniadau incwm yn daladwy
- diddymu'r prawf modd ar gyfer cynrychiolaeth sifil i blant o dan 18 oed, ar gyfer rhieni neu'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant y mae eu plant yn wynebu tynnu triniaeth cynnal bywyd neu'n cadw triniaeth cynnal bywyd yn ôl, ac am gymorth cyfreithiol mewn perthynas â chwestau sy'n cynnwys achos posibl o dorri hawliau Deddf Hawliau Dynol 1998 neu o ddiddordeb ehangach sylweddol i'r cyhoedd.

7. Ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol, rydym yn argymhell:

- cynyddu'r trothwyon incwm ar gyfer cymorth cyfreithiol yn Llys y Goron a'r llys ynadon, i roi ystyriaeth i'r cynnydd mewn costau byw a ffioedd cyfreithiol preifat
- diddymu'r trothwy incwm gwario uwch ar gyfer cymorth cyfreithiol yn Llys y Goron
- cynyddu'r cyfnod cyfrannu uchaf ar gyfer cyfraniadau incwm yn Llys y Goron i 18 mis, a gweithredu cyfradd gyfrannu haenog (40%/60%/80%)
- parhau i basbortio pawb sy'n derbyn budd-daliadau perthnasol sy'n destun prawf modd (gan gynnwys Credyd Cynhwysol) drwy'r asesiad incwm
- diddymu'r eithriad cyfredol rhag talu cyfraniad cyfalaf i berchenogion tai sy'n cael eu dedfrydu yn Llys y Goron ac sy'n derbyn budd-daliadau pasbortio
- alinio'r cyngor a'r cymorth troseddol a'r profion modd cymorth eiriolaeth gyda'n prawf modd cymorth cyfreithiol sifil newydd arfaethedig.

8. Ar ôl i ni dderbyn ac ystyried yr ymatebion, byddwn yn cyhoeddi ymateb i'r ymgynghoriad sy'n amlinellu ein polisiâu terfynol. Yna byddwn yn dechrau ar y gwaith angenrheidiol i ddiwygio'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau, ac yn gwneud y newidiadau angenrheidiol i systemau digidol yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol.